



**CITY AND COUNTY OF SWANSEA**

**DINAS A SIR ABERTAWE**

**ARWEINIAD DIOGELU**

**DINAS A SIR ABERTAWE**

**AR GYFER GWASANAETHAU ADDYSG  
A DYSGU GYDOL OES**

**Mawrth 2013**

## **1. Rhagarweiniad**

Lluniwyd y ddogfen arweiniol hon i gefnogi arfer da wrth ddiogelu ac amddiffyn plant mewn gwasanaethau addysg a dysgu gydol oes. Mae'r arweiniad hwn yn diffinio'n glir y disgwyl i ysgolion a gwasanaethau cefnogi addysg roi polisiau a gweithdrefnau diogelu ar waith, sy'n cydymffurfio â gweithdrefnau ac arweiniad lleol a chenedlaethol.

Mae Dinas a Sir Abertawe'n rhoi pwyslais mawr ar yr angen i gyfle cyfartal fod wrth wraidd pob gweithgaredd sy'n ymwneud â phlant, a bydd yn parhau i hybu a datblygu ei rôl fel eiriolwr ac amddiffynnwr i'r rhai sy'n cael anawsterau arbennig wrth gyflawni eu llawn botensial.

Mae Dinas a Sir Abertawe'n cymryd ei rôl a'i gyfrifoldebau i amddiffyn a diogelu lles a buddiannau pob plentyn yn ei ofal o ddifrif. Ni ellir tanbrizio ei rôl wrth amddiffyn plant a phobl ifanc rhag cael eu camfanteisio a/neu u cam-drin.

Mae diogelu ac amddiffyn plant a phobl ifanc yn faes gwaith heriol ac anodd. Caiff yr anawsterau a'r gofynion hyn eu cydbwysu ag amserau boddhaol, wrth i'r staff gydweithio i gefnogi ac amddiffyn plant a phobl ifanc. Mae Dinas a Sir Abertawe'n cydnabod y ffactorau a'r nodau hyn i sicrhau y darperir hyfforddiant ac arweiniad priodol yn y maes sensitif ond hanfodol hwn ar gyfer yr holl staff sy'n gweithio yn ardal yr awdurdod lleol sy'n dod i gysylltiad â phlant a phobl ifanc.

Mae digon o dystiolaeth bod gwaith diogelu effeithiol yn gofyn am weithdrefnau clir a chadarn a chydweithredu da rhwng asiantaethau, ac mae angen i'r rhai sy'n gweithio yn y maes fod yn gymwys ac yn hyderus wrth nodi sefyllfaoedd amddiffyn plant ac ymatbe iddynt.

Wrth lunio'r arweiniad hwn, bydd yr awdurdod lleol yn defnyddio profiad, gweithdrefnau ac arferion yr ymarferwyr proffesiynol sy'n gweithio gyda phlant mewn lleoliadau addysgol, cymdeithasol, iechyd a rhai cysylltiedig eraill. Caiff yr arweiniad hwn ei gyfeirio hefyd gan arfer da hysbys yn Dinas a Sir Abertawe ac yn genedlaethol, ac mae'n cyd-fynd â pholisiau, protocolau a gweithdrefnau Bwrdd Diogelu Plant Abertawe/Bae'r Gorllewin (BDPA/BG).

## **2. Rôl yr Awdurdod Lleol**

Mae lles plant yn gyfrifoldeb corfforaethol i'r awdurdod lleol cyfan. Mae hefyd yn rhaid i gyrff cyhoeddus eraill yng Nghymru gyflawni eu dyletswyddau gan ystyried yr angen i ddiogelu a hyrwyddo lles plant yng Nghymru dan adran 28 Deddf Plant 2004. (Deddf Plant 2004)

Mae adrannau 27 a 47 y Ddeddf Plant yn rhoi dyletswyddau ar awdurdodau lleol i gynorthwyo gwasanaethau cymdeithasol lleol sy'n gweithredu ar ran plant a phobl ifanc sydd mewn angen neu sy'n dioddef neu'n debygol o ddioddef niwed sylweddol.

Mae'n ofyniad dan adran 175 Deddf Addysg 2002 i awdurdodau a chyrrff llywodraethu ysgolion a gynhelir a sefydliadau addysg bellach wneud trefniadau i sicrhau y caiff eu swyddogaethau eu cyflawni gan ystyried diogelu a hyrwyddo lles plant.

At ddiben y ddogfen hon, disgrifiad plentyn yw person hyd at 18 oed, fel a ddisgrifir yng Ngweithdrefnau Amddiffyn Plant Cymru Gyfan 2008.

Yn ogystal â'r ddyletswydd statudol hon, ceir cyfrifoldeb corfforaethol a bugeiliol, sy'n cydnabod bod gan bob plentyn a pherson ifanc sy'n defnyddio neu y mae angen iddynt ddefnyddio'r gwasanaethau a ddarperir gan Ddinas a Sir Abertawe yr hawl sylfaenol i gael eu hamddiffyn rhag niwed.

Bwriedir i'r arweiniad hwn ailgadarnhau'r cyfrifoldebau hynny, ac mae'n ceisio sicrhau bod pob aelod o staff sy'n gweithio gyda neu ar ran plant a phobl ifanc yn Abertawe yn ymwybodol o'r angen i weithredu mewn modd cyson er mwyn gwella lles a diogelwch plant.

Wrth gyflawni hyn, bydd yr awdurdod lleol yn sicrhau bod Swyddog Amddiffyn a Diogelu Plant yr Adran Addysg yn adrodd i'r Uwch Dîm Arwain (UDA) ar gyfer Addysg yn rheolaidd i drafod materion sy'n ymwneud â diogelu plant yn Abertawe. Mae'r awdurdod lleol hefyd yn cymryd o ddifrif ei gyfrifoldebau i fynd i'r afael â materion arfer, polisi a hyfforddiant ar gyfer yr holl sefydliadau addysg yn Dinas a Sir Abertawe. Bydd Uwch Dîm Arweinyddiaeth yr Adran Addysg yn cefnogi ac yn hyrwyddo gwaith BDPA/BG.

### **3. Diben yr Arweiniad**

Nod yr arweiniad hwn yw darparu fframwaith sy'n sicrhau bod polisiâu ac arferion yn y Gwasanaethau Addysg a Dysgu Gydol Oes yn gyson ac yn unol â'r gwerthoedd a nodir sydd wrth wraidd yr holl waith a wneir gyda phlant a phobl ifanc. Fel y cyfryw, mae'r ddogfen hon yn darparu cyd-destun ar gyfer sefydlu arfer da ym mhob mater sy'n ymwneud ag amddiffyn plant a gofalu amdanynt.

Mae'r ddogfen hon hefyd yn ceisio egluro i bob aelod o staff Dinas a Sir Abertawe yn y Gwasanaethau Addysg a Dysgu Gydol Oes am eu cyfrifoldebau proffesiynol i sicrhau eu bod yn cyflawni dyletswyddau statudol ac eraill yn unol â'r holl ofynion a gweithdrefnau lleol a chenedlaethol.

## **4. Gwerthoedd Sylfaenol**

### **Gwerth trosgynnol: Mae lles y plentyn yn hollbwysig**

Mae Llywodraeth Cymru wedi nodi 7 nod craidd yn seiliedig ar Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP). Dyma'r nodau:

1. Cael dechrau teg mewn bywyd;
2. Derbyn amrywiaeth cynhwysfawr o gyfleoedd dysgu ac addysgu;
3. Mwynhau'r iechyd gorau posib heb gael eu cam-drin, eu herlid na'u camfanteisio;
4. Cyfle i gymryd rhan mewn gweithgareddau chwarae, hamdden, chwaraeon a diwylliannol;
5. Cael pobl i wrando arnynt a'u trin â pharch, a chydabod eu hil a'u hunaniaeth ddiwylliannol;
6. Byw mewn cartref a chymuned ddiogel sy'n cynnal lles corfforol ac emosiynol; a
7. Pheidio â bod dan anfantais oherwydd tlodi.

### **Gwerthoedd sylfaenol eraill:**

- Mae gan blant yr hawl i gael eu trin â pharch ac urddas; felly hefyd yr oedolion sy'n gweithio gyda hwy.
- Mae'n gyfrifoldeb ar bob oedolyn i amddiffyn plant.
- Bydd yn gyfrifoldeb ar bob oedolyn sy'n gweithio am gyflog neu'n wirfoddol yn yr Adran Addysg a sefydliadau cysylltiedig i amddiffyn plant rhag niwed pryd a lle bynnag y bydd mewn sefyllfa i wneud hynny.
- Dylai pob plentyn gael y cyfle i godi pryderon, mynegi ei farn a chyfrannu at benderfyniadau a wneir am eu bywydau a rhoi sylwadau arnynt, pryd bynnag bo hynny'n briodol.
- Caiff yr holl waith gyda phlant a phobl ifanc ei gyfeirio gan gyfle cyfartal ac arfer gwrthormesol, a bydd yn adlewyrchu anghenion y cymunedau a wasanaethwn.
- Rhaid i bawb sy'n gweithio gyda neu ar ran plant a phobl ifanc adlewyrchu a hyrwyddo gwerth 'Cydwethio' â rhieni, cydwethwyr ac asiantaethau eraill er mwyn creu amgylcheddau diogel ac amddiffyn plant rhag niwed.

## **5. Polisiâu, Gweithdrefnau ac Arfer**

Bydd pob sefydliad neu wasanaeth sydd o fewn maes cyfrifoldeb yr Adran Addysg ac sy'n ymwneud â phlant a phobl ifanc yn sicrhau bod staff dynodedig ar gael sy'n gymwys i ymateb i sefyllfaoedd a phryderon amddiffyn plant pryd bynnag y byddant yn codi. Mae'r awdurdod lleol yn argymhell y dylid

enwebu dirprwy berson dynodedig ym mhob sefydliad i allu cyflenwi am y person dynodedig pan fo'n absennol.

Yn y sefydliadau a'r gwasanaethau hyn, bydd Polisi Amddiffyn Plant yn ei le. Mae'r awdurdod lleol wedi llunio dogfen dempled y gellir ei haddasu a'i theilwra i fod yn addas ar gyfer anghenion unigol pob ysgol, sefydliad etc. Ceir copi o'r ddogfen hon yn Atodiad A. Bydd y ddogfen hon yn adlewyrchu'r arweiniad a'r cyngor a dderbyniwyd gan ffynonellau cenedlaethol a lleol, yn benodol Gweithdrefnau Amddiffyn Plant Cymru Gyfan (GAPCG) (Ebrill 2008), Diogelu Plant mewn Addysg (Ebrill 2008) a pholisïau a gweithdrefnau cysylltiedig y mae'r BDPA/BG wedi cytuno arnynt.

Yn ogystal â'r ddogfen dempled, mae'r awdurdod lleol wedi paratoi Llyfryn Gwybodaeth ac Arweiniad i Ysgolion (Mawrth 2011). Mae copïau o'r llyfryn hwn wedi cael eu dosbarthu i'r holl ysgolion a sefydliadau yn Abertawe er mwyn iddynt eu dosbarthu i bob aelod o'u staff. Ceir copi yn Atodiad B. Yn y llyfryn hwn ceir gwybodaeth am ymdrin â phryderon am gydweithwyr, canllawiau ar gyfer yr Aelod Dynodedig o Staff, storio a throsglwyddo cofnodion a manylion cyswllt a gwybodaeth ar gyfer y Tîm Canolog Cyngori, Cyfeirio ac Asesu Plant.

Mae Llywodraethwyr Cymru wedi datblygu ffeithlen am ddatgelu camarfer. Ceir copi o'r ddogfen hon yn Atodiad C. Yn ogystal, ceir gweithdrefnau Llywodraethwyr Cymru ar gyfer staff ysgolion a pholisi enghreifftiol i'w fabwysiadu gan gyrrff llywodraethu, a gyhoeddwyd ar 3 Rhagfyr 2007 (Cylchlythyr 36/2007) ar wefan Llywodraethwyr Cymru.

## **6. Côt Ymddygiad**

Bydd pob oedolyn sy'n gweithio yn Abertawe naill ai am gyflog neu'n wirfoddol yn glynu wrth godau ymarfer penodol a nodir yn glir ym mholisi pob sefydliad. Caiff y disgwyliad hwn o ran y côd ymarfer ei bwysleisio i bob unigolyn ar ddechrau cyflogaeth neu gyfnod o gefnogaeth wirfoddol.

Bwriedir i godau ymarfer o'r fath ddiogelu lles plant ac amddiffyn oedolion y cydnabyddir eu bod yn agored i niwed mewn rhai sefyllfaoedd.

## **7. Adolygu a Chadw Cofnodion**

Mae'n hanfodol cadw cofnodion yn dda mewn sefyllfaoedd lle tybir neu greidir y gallai plentyn fod mewn perygl o gael ei niweidio neu'n debygol o fod mewn perygl o gael ei niweidio.

Bydd yn ofynnol i bob sefydliad a gwasanaeth gynnal cofnodion amddiffyn plant cywir a pherthnasol. Caiff y cofnodion eu cadw mewn lle diogel ond ar wahân i'r holl gofnodion eraill sy'n ymwneud â'r plentyn penodol. Ni fydd modd i neb ond y person dynodedig/pobl ddynodedig gael hyd i'r cofnodion amddiffyn plant a'u cynnal. Gall fod gan y sefydliad neu'r gwasanaeth ddirprwy berson dynodedig a enwir a all gael hyd i'r cofnodion os bydd angen.

Bydd angen i bob sefydliad a gwasanaeth gynnwys gweithdrefnau penodol yn eu polisi ar gyfer trosglwyddo cofnodion sensitif pan fo gofyn am hyn. Mewn ysgolion mae'r awdurdod lleol wedi llunio polisi a gweithdrefnau y mae'n rhaid glynw wrthynt pan fo angen trosglwyddo cofnodion sensitif. Gellir gweld y rhain ar ddiwedd y ddogfen hon.

Mae cofnodion amddiffyn plant yn amodol ar y trefniadau ar gyfer cynnal cyfrinachedd a storio yn y sefydliad hwnnw. Caiff y cofnodion eu cadw am gyfnod o ddim llai na 7 mlynedd ar ôl i'r plentyn gyrraedd 18 oed.

Bydd rhannu gwybodaeth neu gofnodion yn amodol ar brotocolau a gweithdrefnau Dinas a Sir Abertawe a BDPA/BG y cytunwyd arnynt.

Bydd pob sefydliad neu wasanaeth yn cadw ac yn cynnal cofnodion sy'n manylu ar honiadau o gam-drin yn erbyn unrhyw aelod o staff sy'n gweithio iddynt, boed hynny yn gyflogedig neu'n wirfoddol, beth bynnag y bo'r canlyniad. Mae gofyniadau clir am sut i rannu gwybodaeth â sefydliadau cyfreithiol neu statudol e.e. ISA a Chyngor Addysgu Cyffredinol Cymru (CACC). Mae cyngor ac arweiniad ar rannu'r wybodaeth benodol hon ar gael gan yr Adran Adnoddau Dynol.

## **8. Recriwtio, Goruchwyllo a Chefnogi Staff**

Dros y blynyddoedd diweddar cafwyd mwy o ymwybyddiaeth o'r posibilrwydd o gam-drin gan bobl yr ymddiriedir ynddynt oherwydd eu swydd neu eu statws ac felly, mae'n hanfodol recriwtio a dethol staff yn ofalus ac yn drylwyr. Bydd angen i'r rhai sy'n gyfrifol am gyflogi a dethol staff gymryd pob rhagofal i sicrhau y dilynir gweithdrefnau gwirio trylwyr. Mae'n rhaid bod yn ofalus i sicrhau y caiff yr holl fanylion eu gwirio ac y gofynnir am eirdaon ac y cafodd y rhain eu gwirio wedi'u derbyn. Gellir cael mwy o arweiniad a chefnogaeth trwy gysylltu ag Adran Adnoddau Dynol yr awdurdod lleol sy'n cynnig hyfforddiant ar gyfer penaethiaid a llywodraethwyr ar recriwtio diogel.

Bydd yr Uned Ysgolion a Llywodraethwyr yn cadw cofnod o benaethiaid a chadeiryddion llywodraethwyr sydd wedi cyflawni hyfforddiant recriwtio diogel ac yn atgoffa penaethiaid a chadeiryddion llywodraethwyr i fynd i hyfforddiant wedi'i ddiweddarau fel rhan o raglen dreigl tair blynedd. Lle bo llywodraethwyr yn ymwneud â recriwtio ond heb gyflawni hyfforddiant recriwtio diogel, bydd y pennaeth yn gyfrifol am raeadru gwybodaeth ynglŷn â recriwtio diogel i aelodau'r panel penodi.

Bydd angen i'r cyflogwr posib gynnal gwiriadau'r Gwasanaeth Datgelu ac Eithrio (GDE) manwl ar gyfer pob aelod o staff a chydymffurfio â gofynion y Gwasanaeth Datgelu ac Eithrio (Rhagfyr 2012) i'r rhai sy'n bwriadu gweithio gyda phlant. Gellir cael mwy o arweiniad ar y ddau sefydliad hwn trwy ddefnyddio'r cyfeiriadau gwefan ar ddiwedd y ddogfen hon. Mae'n bolisi yn Ninas a Sir Abertawe i adnewyddu gwiriadau'r GDE bob tair blynedd.

Hefyd mae'n rhaid i bob sefydliad neu wasanaeth sicrhau bod pob aelod o staff sy'n gweithio gyda phlant yn gallu derbyn sesiwn sefydlu, hyfforddiant, goruchwyliaeth a chefnogaeth priodol.

## **9. Hyfforddiant**

Bydd angen i benaethiaid a rheolwyr sicrhau bod pob aelod o'u staff yn cael cyfle i dderbyn hyfforddiant sy'n berthnasol ac yn briodol i'w rôl. Argymhellir bod pob aelod o staff yn derbyn hyfforddiant amddiffyn plant wedi'i ddiweddarau ar adeg pan fo'r pennaeth neu'r rheolwr unigol yn ystyried ei fod yn angenrheidiol. Mae Abertawe'n gweithredu rhaglen hyfforddi dreigl tair blynedd a dylai pob aelod o staff dderbyn hyfforddiant o leiaf bob yn drydedd blwyddyn os nad ynghynt. Bydd y cyrsiau hyfforddi'n gwella gwybodaeth a'r gallu i nodi ac ymateb i sefyllfaoedd lle mae plant wedi cael eu niweidio neu'n debygol o gael eu niweidio ac ystyrir eu bod mewn perygl.

Mae'r awdurdod yn darparu hyfforddiant trwy ei Swyddog Amddiffyn Plant ac yn ceisio sicrhau bod unrhyw hyfforddiant a gynigir yn cyd-fynd â gwaith BDPA/BG ac yn ei gefnogi fel a nodir yn ei is-grŵp hyfforddiant sy'n rhan o'r Grŵp Hyfforddiant Rhanbarthol.

Dylai staff fod yn gwbl ymwybodol o'u rôl a'u cyfrifoldebau o ran amddiffyn plant a dylent fod yn ymwybodol o rôl eu cydweithwyr a'i ddeall, gan gynnwys cydweithwyr o asiantaethau cefnogi.

## **10. Cysylltiadau â Pholisïau Eraill a Deddfwriaeth ac Arweiniad Arall**

Dylid ystyried yr arweiniad hwn yng nghyd-destun polisïau eraill sy'n ymwneud â gweithio gyda phlant a phobl ifanc. Bydd angen i staff fod yn ymwybodol o sut gall materion eraill effeithio ar sefyllfaoedd amddiffyn plant,

megis camddefnyddio cyffuriau ac alcohol, cam-drin yn y cartref, materion iechyd meddwl, camfanteisio ar blant yn rhywiol, priodasau dan orfod a llurgunio organau rhywiol merched, a bydd angen iddynt ystyried y rhain.

Ceir rhestr gynhwysfawr o bolisiau a dogfennau ar ddiwedd yr arweiniad hwn. Yn ogystal, ceir dolenni i wefannau priodol ynghyd â hyperddolenni i arweiniad, cyngor a gwybodaeth ychwanegol ynglŷn ag amddiffyn, diogelu a lles plant.

## **11. Gwybodaeth, Cyngor a Chefnogaeth**

Mae mwy o wybodaeth, cyngor a chefnogaeth ar gael gan Swyddog Amddiffyn a Diogelu Plant yr Adran Addysg yn y Ganolfan Ddinesig, Abertawe neu drwy'i ffonio ar 01792 637148.





### **Rhestr o bolisiau, arweiniad a chyngor cysylltiedig ac ychwanegol a dolenni i wefannau priodol.**

Gellir gweld yr holl ddogfennau hyn ar wefan Llywodraeth Cymru:

[www.wales.gov.uk/educationandskills](http://www.wales.gov.uk/educationandskills)

- Gweithdrefnau Amddiffyn Plant Cymru Gyfan 2008
- Diogelu Plant mewn Addysg - Ebrill 2008
- Cofnodion Addysg, Adroddiadau Ysgol a'r System Drosglwyddo Gyffredin - Cylchlythyr 18/2006
- Diogelu Plant: Gweithio gyda'n Gilydd o Dan Ddeddf Plant 2004 - Cylchlythyr 12/2007
- Addysgu Drama: Canllawiau ar Ddiogelu Plant ac Amddiffyn Plant i Reolwyr ac Ymarferwyr Drama - Cylchlythyr 23/2006
- Arweiniad Cylchlythyr 36/2007 Llywodraeth Cymru Gweithdrefnau Chwythu'r Chwiban mewn Ysgolion a Pholisi Enghreifftiol
- Adrodd am Achosion o Gamymddwyn neu Anghymhwystra Proffesiynol yn y Gwasanaeth Addysg - Cylchlythyr 018/2009 (sy'n disodli rhif 33/2005)
- Gwybodaeth a Chanllawiau ar Gam-drin Domestig: Diogelu Plant a Phobl Ifanc 2010
- Plant Ar Goll o'r System Addysg 2010
- Ymyriad diogel ac effeithiol - defnyddio grym rhesymol a chwilio am arfau Hydref 2010
- Amddiffyn Plant a Phobl Ifanc rhag Camfanteisio Rhywiol – Canllawiau ar Ddiogelu Plant (cyhoeddwyd fis Ionawr 2011)
- [Protocol Cymru Gyfan ar Gamfanteisio Rhywiol - Hydref 2008 \[144kb\]](#)
- [Amddiffyn Plant a Phobl Ifanc rhag Camfanteisio Rhywiol \(canllawiau LICC\) - Ionawr 2011 \[353kb\]](#)



-  [Protocol ar Gam-drin yn y Cartref - \(Canllawiau Cymru Gyfan ar gyfer Arfer\) - Mai 2011 \[385kb\]](#)
-  [Canllawiau amlasiantaeth ar arferion: Ymdrin ag achosion o Briodasau dan Orfod \(Llywodraeth Cymru\) \[501kb\]](#)
- [Diogelu Plant rhag Camdriniaeth sy'n gysylltiedig â Chred mewn Meddiant gan Ysbryd: Canllawiau Anstatudol LICC - Mai 2008 \[123kb\]](#)
-  [Masnachu – Canllawiau Arfer Cymru Gyfan ar gyfer Amddiffyn Plant a Allai Fod Wedi Cael eu Masnachu - Mehefin 2011 \[716kb\]](#)
-  [Plant Di-gwmni sy'n Ceisio Lloches - Canllawiau Arfer Cymru Gyfan \[1.1Mb\]](#)

### **Dogfennau eraill o ffynonellau eraill**

- Deddf Troseddau Rhywiol (Diwygiad) 2000: Pennod 44 - Adrannau 1-7, Llyfrfa Ei Mawrhydi ac Argraffwr Deddfau Seneddol y Frenhines
- Diogelu Plant a Recriwtio Mwy Diogel (Daeth i rym ar 1 Ionawr 2007 yn Lloegr) - Mae Pob Plentyn yn Bwysig: Newid i Blant.
- Deddf Plant 2004
- Deddf Addysg 2002
- Canllawiau Arfer Amlasiantaeth: Ymdrin ag Achosion o Briodasau Dan Orfod Cyhoeddiad Llywodraeth Ei Mawrhydi Mehefin 2009
- Deddf Addysg 2011
- Deddf Hawliau Dynol 1998
- Deddf Diogelu Data 1998
- Deddf Plant 1989

### **Hyperddolenni i wefannau sy'n cynnwys dolenni pwysig i Ddiogelu, ac yn benodol Amddiffyn Plant. (Nid yw hon yn rhestr gynhwysfawr)**

- [www.cymru.gov.uk](http://www.cymru.gov.uk)
- [www.isa.gov.uk](http://www.isa.gov.uk)
- [www.gtcw.org.uk](http://www.gtcw.org.uk)
- [www.ico.gov.uk](http://www.ico.gov.uk)
- [www.education.gov.uk](http://www.education.gov.uk)
- [www.governornet.co.uk](http://www.governornet.co.uk)
- [www.thinkuknow.co.uk](http://www.thinkuknow.co.uk)
- [www.everychildmatters.co.uk](http://www.everychildmatters.co.uk)
- [www.wales.gov.uk/domesticabuse](http://www.wales.gov.uk/domesticabuse)
- [Protocol ar Hunan-niweidio \(SSCB\) - Tachwedd 2012 \[120kb\]](#)
- [Gweithio gyda Theuluoedd Anghydweithredol \(Bwrdd Diogelu Plant Abertawe\) - Mai 2009 \[145kb\]](#)

- [Pobl Ifanc sy'n Niweidio'n Rhywiol \(Bwrdd Diogelu Plant Abertawe\) - Gorffennaf 2009 \[63kb\]](#) I'w diweddarau'n fuan

## **Atodiad A:**

### **Templed Enghreifftiol ar gyfer Polisi Amddiffyn Plant Gwasanaethau Addysg.**

## **Templed**

### **Polisi Amddiffyn Plant i Ysgolion**

Dylid darllen y ddogfen hon ar y cyd â'r canlynol:

- Gweithdrefnau Amddiffyn Plant Cymru Gyfan 2008
- Llyfryn Amddiffyn Plant – Nodiadau i Staff (Mawrth 2011)
- Staff sy'n Wynebu Honiad o Gam-drin
- Diogelu Plant mewn Addysg (Cylchlythyr LICC 005/2008)

Mae staff a llywodraethwr yr ysgol hon yn cydnabod yn llwyr y cyfraniad maent yn ei wneud at ddiogelu plant ac mae lles yr holl ddisgyblion yn yr ysgol hon yn flaenoriaeth. Credwn y dylai ein hysgol ddarparu amgylchedd gofalgarg, cefnogol a diogel sy'n hybu datblygiad cymdeithasol, corfforol a moesol pob plentyn trwy ddarparu cwricwlwm ac ethos sy'n hybu hunan-barch, hyder ac annibyniaeth. Ni all unrhyw blentyn ddysgu'n effeithiol a chyflawni eu potensial oni bai eu bod yn teimlo'n ddiogel.

Nodau'r polisi hwn yw:

- Sicrhau bod yr holl ddisgyblion yn gwybod y bydd rhywun yn gwrandao arnynt a'u bod yn gallu cyfathrebu unrhyw bryderon sydd ganddynt;
- Cynyddu ymwybyddiaeth yr **holl** staff addysgu, staff cysylltiol a llywodraethwyr yn yr ysgol am yr angen i ddiogelu disgyblion trwy nodi'r plant hynny sydd "mewn angen"\* ac achosion posib o gam-drin ac esgeuluso plentyn;
- Pwysleisio'r angen i staff yr ysgol hon weithio mewn partneriaeth ag asiantaethau perthnasol eraill (yn enwedig Adran y Gwasanaethau Cymdeithasol a'r heddlu) a'u cefnogi wrth gyflawni eu dyletswyddau statudol;
- Sicrhau bod staff yn glir am eu cyfrifoldebau unigol am adrodd am bryderon a'u bod yn deall y gweithdrefnau adrodd;
- Sicrhau bod yr ysgol a'r corff llywodraethu yn arfer gweithdrefnau recriwtio diogel wrth gadarnhau addasrwydd staff a gwirfoddolwyr sy'n gweithio gyda disgyblion;
- Darparu modd systematig o fonitro plant y gwyddys neu yr amheuir eu bod mewn perygl o niwed.

*\*Plentyn mewn Angen – Ystyr Plentyn mewn Angen yw plentyn y mae'n bosib bod angen cefnogaeth y Gwasanaethau Cymdeithasol neu asiantaeth arall arno/i ond nad yw o anghenraid mewn perygl o niwed sylweddol y mae angen mesurau amddiffyn ar unwaith arno/i. Dylid dilyn cyfeiriadau i'r Gwasanaethau Plant a Theuluoedd gydag ymholiadau ysgrifenedig.*

## Yr Athro Dynodedig/Athrawes Ddynodedig dros Amddiffyn Plant

Yn yr ysgol hon, y pennaeth (*enw'r athro/athrawes ddynodedig mewn ysgol uwchradd*) yw'r athro/athrawes ddynodedig ar gyfer materion Amddiffyn Plant. Yn absenoldeb y person hwn, bydd y dirprwy bennaeth yn gyfrifol am y materion hyn.

Byddwn yn sicrhau bod yr **holl** staff, staff cysylltiol a llywodraethwyr yn gwybod pwy yw'r athro dynodedig/athrawes ddynodedig

Rôl yr athro dynodedig/athrawes ddynodedig:

- Cydlynu'r holl faterion amddiffyn plant, gan weithredu fel ffynhonnell cyngor a chefnogaeth ar gyfer unrhyw staff sydd â phryderon neu wybodaeth y gallai disgybl fod yn cael ei gam-drin neu fod yn blentyn mewn angen;
- Bod yn gyfrifol am wneud cyfeiriadau i'r Gwasanaethau Cymdeithasol;
- Sicrhau bod yr ysgol yn cael ei chynrychioli mewn cynadleddau achos a chyfarfodydd craidd ac yn cyfrannu'n llawn trwy ddarparu adroddiadau yn ôl yr angen;
- Mynd ar gyrsiau hyfforddi'n rheolaidd a rhaedru hyfforddiant i staff;
- Sicrhau bod gan yr holl staff (gan gynnwys gweithwyr asiantaeth a'r rhai sydd wedi'u cyflogi'n uniongyrchol gan yr ysgol) dystysgrif SCT ddilys a chyfredol.
- Sicrhau bod gan yr holl staff (gan gynnwys staff newydd/athrawon cyflenwi) fynediad i'r holl ddogfennau amddiffyn plant perthnasol a'u bod yn deall eu cyfrifoldebau eu hunain;
- Adrodd **am** unrhyw honiad ynglŷn ag aelod o staff/gwirfoddolwr i Gydlynnydd Amddiffyn Plant yr Awdurdod Addysg Lleol;
- Sicrhau y cynhelir cofnod cronolegol o bryderon os oes pryderon am blentyn, hyd yn oed os nad oes angen gwneud cyfeiriad ar unwaith;
- Mynd i unrhyw Gyfarfodydd Strategaeth Uwch;
- Sicrhau bod yr holl gofnodion, gan gynnwys cofnodion cynadleddau achos, yn cael eu cadw'n gyfrinachol ac yn ddiogel (ar wahân i gofnodion disgyblion);
- Anfon cofnodion y plentyn, gan gynnwys yr holl wybodaeth amddiffyn plant, ar unwaith i unrhyw ysgol y mae'r plentyn yn trosglwyddo iddi.

## Y Llywodraethwr dros Amddiffyn Plant

Cadeirydd y llywodraethwyr (neu berson arall a enwyd) yw'r llywodraethwr enwebedig dros amddiffyn plant.

Eu rôl yw sicrhau:

- Bod gan ein hysgol bolisi amddiffyn plant ar waith sy'n cael ei adolygu i sicrhau ei effeithiolrwydd;

- Bod yr athro dynodedig/athrawes ddynodedig a staff eraill yn derbyn hyfforddiant priodol a rheolaidd;
- Eu bod yn cael eu hysbysu ar unwaith am unrhyw honiad a wneir yn erbyn y pennaeth. Yna bydd cadeirydd y llywodraethwyr yn cysylltu â Chydlynnydd Amddiffyn Plant yr Awdurdod Addysg Lleol ar unwaith ac yn mynd i unrhyw Gyfarfod Strategaeth Uwch a drefnir
- Bod eitem yn cael ei chynnwys ar agenda un o gyfarfodydd y Corff Llywodraethu o leiaf unwaith y flwyddyn lle bydd yr athro dynodedig/athrawes ddynodedig yn adrodd am:
  - newidiadau i'r gweithdrefnau neu'r polisi amddiffyn plant
  - hyfforddiant a gyflawnwyd gan bob aelod o staff a phob llywodraethwr yn ystod y deuddeg mis blaenorol
- Nifer y digwyddiadau a gafwyd yn yr ysgol dros y deuddeg mis diwethaf y mae ganddynt elfen amddiffyn plant (heb fanylion nac enwau)
- Ble a sut mae amddiffyn plant yn ymddangos yn y cwricwlwm.

### **Camau i'w cymryd gan ein hysgol**

- Byddwn yn mynd ar gyrsiau hyfforddiant amddiffyn plant perthnasol yn rheolaidd.
- Byddwn yn dilyn Gweithdrefnau Amddiffyn Plant Cymru Gyfan.
- Bydd yr holl staff yn rhoi gwybod i'r athro dynodedig/athrawes ddynodedig am unrhyw bryderon bod disgybl yn dioddef neu'n debygol o ddioddef camdriniaeth neu am unrhyw ddatgeliad o gamdriniaeth.
- Gwneir cyfeiriadau ar unwaith i'r Gwasanaethau Cymdeithasol dros y ffôn ac yna bydd ymholiadau ysgrifenedig i'w holrhain.
- Bydd unrhyw blentyn ar y gofrestr amddiffyn plant sy'n absennol heb esboniad yn cael ei gyfeirio i'r Gwasanaethau Cymdeithasol a'r Swyddog Lles Addysg.
- Bydd yr holl staff yn rhoi gwybod i'r athro dynodedig/athrawes ddynodedig am unrhyw honiadau a wneir yn erbyn staff/gwirfoddolwyr yn yr ysgol.
- Byddwn yn ceisio datblygu perthynas o ddealltwriaeth, ymddiriedaeth a hyder ag asiantaethau eraill er mwyn sicrhau'r canlyniadau gorau posib i blant.

### **Atal**

- Mae gan yr ysgol rôl bwysig wrth atal camdriniaeth trwy ddarparu llinellau cyfathrebu da ag oedolion yr ymddiriedir ynddynt mewn amgylchedd diogel ar gyfer disgyblion.
- Mae ein hysgol yn annog plant i siarad a lleisio'u barn.
- Mae ein hysgol yn sicrhau bod pob plentyn yn gwybod bod rhywun yn yr ysgol y gall fynd ati i drafod pryderon neu unrhyw drafferthion.

- Bydd ein hysgol yn cynnwys cyfleoedd o fewn y cwricwlwm ABICCh i ddisgyblion archwilio materion i'w helpu i ddatblygu'r sgiliau i aros yn ddiogel rhag niwed ac i wybod pwy y gallant droi atynt am gymorth.

## Cam-drin Plant – Ei nodi a'r camau i'w cymryd

Mae 4 categori o gam-drin:

Corfforol  
Rhywiol  
Esgeulustod  
Emosiynol

Diffinnir y rhain fel a ganlyn:

Gall cam-drin corfforol gynnwys taro, ysgwyd, taflu, gwenwyno, llosgi neu sgaldio, boddi, tagu neu ffordd arall o achosi niwed corfforol i blentyn. Gall niwed corfforol ddigwydd hefyd am fod rhiant/gofalwyr yn esgus symptomau afiechyd neu'n achosi'r symptomau hynny i blentyn neu oedolyn diamddiffyn sydd yn eu gofal. Disgrifir y sefyllfa hon yn gyffredin trwy ddefnyddio ymadroddion megis 'salwch wedi'i ffugio trwy ddirprwy' neu 'syndrom Munchhausen trwy ddirprwy'.

Mae cam-drin rhywiol yn ymwneud â gorfodi neu ddenu plentyn neu berson ifanc i gymryd rhan mewn gweithgareddau rhywiol, p'un a yw'r plentyn yn ymwybodol o'r hyn sy'n digwydd neu beidio. Gall y gweithgareddau gynnwys cysylltiad corfforol, gan gynnwys ymosodiad trwy dreiddio (er enghraifft, treisio neu ryw eneuol) neu weithredoedd anhreiddiol megis mastyrbio, cusanu, rhwbio a chyffwrdd â'r tu allan i ddillad. Gallant hefyd gynnwys gweithgareddau digyswllt, megis cael plant i edrych ar, neu gynhyrchu, delweddau rhywiol, gwyllo gweithgareddau rhywiol, annog plant i ymddwyn mewn ffyrdd rhywiol amhriodol neu baratoi plant i gael eu cam-drin (gan gynnwys ar y rhyngwyd). Nid dynion yn unig a all fod yn gyfrifol am gamdriniaeth rywiol. Gall menywod gyflawni gweithredoedd o gamdriniaeth rywiol hefyd, fel y gall plant eraill.

Esgeulustod yw methiant parhaus i ddiwallu anghenion corfforol a/neu seicolegol plentyn, sy'n debygol o arwain at amharu ar iechyd neu ddatblygiad y plentyn yn ddifrifol. Gall esgeulustod ddigwydd yn ystod beichiogrwydd o ganlyniad i gamddefnyddio sylweddau gan y fam. Ar ôl geni plentyn, gall esgeulustod gynnwys rhiant neu ofalwr yn methu darparu digon o fwyd, dillad a lloches (gan gynnwys eithrio'r plentyn o'r cartref neu gefnu arno/i); methu amddiffyn plentyn rhag niwed neu berygl corfforol ac emosiynol; peidio â sicrhau goruchwyliaeth ddigonol (gan gynnwys defnyddio gofalwyr annigonol); neu fethu galluogi'r plentyn i dderbyn gofal neu driniaeth feddygol briodol. Gall hefyd gynnwys esgeulustod neu ddiffyg ymateb i anghenion emosiynol sylfaenol plentyn.

Cam-drin emosiynol yw cam-drin plentyn yn emosiynol yn barhaus fel bod hynny'n achosi effaith andwyol ddifrifol barhaus ar ddatblygiad emosiynol y plentyn. Gall gynnwys cyfleu i'r plentyn ei fod yn ddiwerth neu nad yw'n cael ei



garu, ei fod yn annigonol neu mai ei unig werth yw ei fod yn diwallu anghenion unigolyn arall. Gall gynnwys gosod disgwyliaid ar blentyn sy'n anaddas i'w oed a'i ddatblygiad. Gall gynnwys achosi plant yn aml i deimlo'n ofnus neu eu bod mewn perygl, neu gamfanteisio neu lygru plentyn.

#### **Arwyddion o Gam-drin Corfforol:**

- Cleisiau, marciau neu anafiadau diesboniad ar unrhyw ran o'r corff
- Nifer o gleisiau - mewn clystyrau, yn aml ar ran uchaf y fraich, y tu allan i'r forddwyd
- Llosgiadau gan sigarét
- Olion brathu person
- Esgyrn wedi torri
- Sgaldiadau, gyda marciau tasgu ar i fyny
- Nifer o losgiadau gydag ymyl amlwg, glir.

#### **Newidiadau mewn ymddygiad sydd hefyd yn gallu bod yn arwydd o gam-drin corfforol:**

- Ofni rhywun yn gofyn i'r rheini am esboniad
- Ymddygiad ymosodol neu byliau o dymer drwg difrifol
- Gwingo pan fo rhywun yn mynd yn nes atynt neu'n cyffwrdd â hwy
- Amharodrwydd i newid dillad, er enghraifft mewn tywydd poeth
- Iselder
- Ymddygiad encilgar
- Rhedeg i ffwrdd o'r cartref.

#### **Arwyddion o Gam-drin Rhywiol**

- Poen neu gosi ger yr organau cenhedlu
- Cleisiau neu waedu ger yr organau cenhedlu
- Afiechyd a drosglwyddir yn rhywiol
- Llif o'r fagina neu haint yn y fagina
- Poen yn y stumog
- Anghysur wrth gerdded neu eistedd i lawr
- Beichiogrwydd

#### **Newidiadau mewn ymddygiad sydd hefyd yn gallu bod yn arwydd o gam-drin rhywiol:**

- Newidiadau sydyn neu ddiesboniad mewn ymddygiad e.e. bod yn ymosodol neu'n encilgar
- Ofn cael ei adael gyda pherson penodol neu grŵp penodol o bobl
- Dioddef hunllefau
- Rhedeg i ffwrdd o'r cartref
- Gwybodaeth rywiol sy'n fwy manwl na'r hyn a ddisgwylir i'w hoedran neu lefel eu datblygiad  
Lluniau neu iaith rywiol
- Gwlychu'r gwely
- Problemau bwyta megis gorfwyta neu anorecsia
- Hunan-niweidio neu lurgunio, sydd weithiau'n arwain at ymgais gan y plentyn i'w ladd ei hun
- Dweud bod ganddynt gyfrinachau na allant eu datgelu i neb
- Camddefnyddio sylweddau neu alcohol
- Bod yn sydyn â ffynonellau anesboniadwy o arian.
- Dim caniatâd i fod â ffrindiau (yn ewnedig yn eu harddegau)
- Gweithredu mewn ffordd rywiol amlwg tuag at oedolion

#### **Arwyddion o Esgeulustod:**

- Bod â chwant bwyd parhaol, weithiau'n dwyn bwyd oddi wrth blant eraill
- Yn frwnt neu'n 'drewi'n gyson
- Colli pwysau neu fod dan bwysau'n barhaol
- Dillad sy'n anaddas i'r amodau.

#### **Newidiadau mewn ymddygiad sydd hefyd yn gallu bod yn arwydd o esgeulustod:**

- Cwyno am fod yn flinedig trwy'r amser
- Peidio â gofyn am gymorth meddygol a/neu fethu mynd i apwyntiadau
- Heb fod â llawer o ffrindiau
- Sôn am gael ei adael ar ei ben ei hun neu heb ei oruchwylio.

#### **Arwyddion o Gam-drin Emosiynol:**

- Ymddygiad niwrotig e.e. pwdu, troi'r gwallt, siglo
- Methu chwarae
- Ofni gwneud camgymeriadau
- Anhwylderau lleferydd sydyn
- Hunan-niweidio

- Ofni y bydd rhywun yn holi un o'i rieni am ei ymddygiad
- Oedi yn ei ddatblygiad emosiynol

## **Trafod datgeliadau a wneir gan blentyn:**

### **Derbyn**

- Gwrandewch yn ofalus ar yr hyn a ddywedir, heb ddangos syndod nac anghrediniaeth.
- Derbyniwch yr hyn a ddywedir. Efallai fod y plentyn sy'n gwneud y datgeliad yn hysbys i chi fel rhywun nad yw bob amser yn dweud y gwir. Fodd bynnag, peidiwch â gadael i'ch gwybodaeth flaenorol am y person hwn eich caniatáu i ragfarnu neu annilysu ei honiad.
- Peidiwch â cheisio ymchwilio i'r honiad. Eich dyletswydd fydd gwranddo ar yr hyn a ddywedir a throsglwyddo'r wybodaeth.

### **Tawelu meddwl**

- Rhowch ddigon o sicrwydd i'r plentyn i dawelu ei feddwl. Byddwch yn onest bob tro a pheidwch â gwneud addewidion na allwch eu cadw, er enghraifft, "Byddaf yn aros gyda chi" neu "Bydd popeth yn iawn nawr".
- Dylech liniaru euogrwydd, os yw'r disgybl yn sôn amdano. Er enghraifft, gallech ddweud, "Nid ti sydd ar fai. Nid ti sy'n gyfrifol am hyn."
- Peidiwch ag addo cyfrinachedd. Bydd dyletswydd arnoch i drosglwyddo'r wybodaeth i rywun arall ac mae angen i'r plentyn wybod hyn.

### **Ymateb**

- Gallwch ofyn cwestiynau ac efallai y bydd angen i chi wneud hynny mewn rhai achosion. Fodd bynnag, nid cyfle i groesholi'r plentyn yw hwn nac i holi cwestiynau manwl dros amser hir. Y cyfan y mae angen i chi ei wybod yw prif bwyntiau'r honiad y mae'r plentyn yn ei wneud.
- Peidiwch â gofyn cwestiynau 'arweiniol' megis "Beth gwnaeth e/hi nesaf?" (mae hyn yn rhagdybio y gwnaeth e/hi rywbeth) neu "Wnaeth e gyffwrdd â ti?". Gall cwestiynau o'r fath annilysu eich tystiolaeth (a thystiolaeth y plentyn) mewn unrhyw erlyniad llys yn ddiweddarach.
- Gofynnwch gwestiynau agored bob tro gan ddefnyddio'r geiriau "Pwy", "Beth", "Pryd", "Ble", "Pam" a "Sut". Pan ofynnwch gwestiynau gan ddefnyddio'r geiriau hyn, mae'n amhosib cael ateb cadarnhaol neu negyddol syml yn ôl.

- Peidiwch â beirniadu'r troseddwr honedig gan y gallai fod gan y disgybl ymlyniad emosiynol cadarnhaol at y person hwn o hyd.
- Peidiwch â gofyn i'r disgybl ailadrodd eu honiad wrth aelod arall o staff. Os gofynnir iddo ei ailadrodd, efallai y bydd yn teimlo nad yw'n cael ei gredu a/neu gallai ei gof am y digwyddiad newid.

### **Cofnodi**

- Cymerwch nodiadau cyn gynted â'i fod yn ymarferol i wneud hynny. Cofnodwch yr union eiriau a siaredir gan y plentyn - peidiwch â'u haildrosi'n iaith oedolion neu geisio unioni synnwyr cystrawen yr hyn a ddywedwyd. Peidiwch â gadael i unrhyw iaith neu eiriau anwedus a ddefnyddir i ddisgrifio'r gamdriniaeth eich tramgwyddo.
- Rhowch yr amser a'r dyddiad ar eich nodiadau a pheidiwch â'u dinistrio rhag ofn y bydd eu hangen yn y llys.
- Os gallwch, tynnwch ddiagram i ddangos lleoliad unrhyw gleisiau ond peidiwch â gofyn i'r plentyn dynnu ei ddillad er mwyn gwneud hyn.
- Cofnodwch ddatganiadau a phethau gweladwy, yn hytrach na'ch dehongliadau neu'ch rhagdybiaethau.

### **Camau Olaf**

- Unwaith eich bod wedi dilyn y canllawiau uchod, dylech drosglwyddo'r wybodaeth ar unwaith i'r person dynodedig neu'r person sy'n gyfrifol am amddiffyn plant. Yna bydd nifer o ddewisiadau ar gael i'r person hwnnw, gan gynnwys cysylltu â'r Tîm Canolog Cynghori, Cyfeirio ac Asesu Plant i geisio eu cyngor am yr hyn a ddylai ddigwydd nesaf.
- Os nad yw'r person hwnnw ar gael ac nad ydych yn sicr am yr hyn a ddylech chi ei wneud, ffoniwch y Tîm Canolog Cynghori, Cyfeirio ac Asesu Plant ar 635700 i gael cyngor ac arweiniad.

### **Sail Statudol Amddiffyn Plant**

Deddf Plant 1989

Deddf Plant 2004

Diogelu Plant mewn Addysg: Rôl awdurdodau lleol a chyrrff llywodraethu o dan Ddeddf Addysg 2002, Cylchlythyr 005/2008.

Mae gan y corff llywodraethu ddyletswydd dan adran 175 Deddf Addysg 2002 i sicrhau “bod ei swyddogaethau sy’n ymwneud ag ymddygiad yr ysgol yn cael eu harfer gyda’r bwriad o ddiogelu a hybu lles plant....”

**Atodiad B:**

Llyfryn Gwybodaeth ac Arweiniad i Ysgolion (Mawrth 2011)  
Gweler y ddogfen ar wahân

**Atodiad C:**

Ffeithlen Datgelu Camarfer 04/12  
Gweler y ddogfen ar wahân